

Ry'n ni wedi cadw ffeiliau a elwir yn cwcis ar eich dyfais. Mae'r cwcis hyn:

- yn hanfodol i'r safle weithio

Byddem hefyd yn hoffi cadw rhai cwcis i'n helpu ni:

- i wella'n gwefan drwy gasglu ac adrodd gwybodaeth ar sut yr ydych yn defnyddio'r safle
- i deilwra cyfathrebu

Derbyn cwcis

Newid gosodiadau cwcis



English



» [Dilynwch y cyngor ar gyfer y coronafeirws \(COVID-19\)](#)

[Hafan](#) > [Hysbysiadau](#) > [Holl hysbysiadau](#) > Datganiad Ysgrifenedig: Trefniadau ar gyfer ysgolion ym mis Medi

DATGANIAD CABINET

Datganiad Ysgrifenedig: Trefniadau ar gyfer ysgolion ym mis Medi

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 9 Gorffennaf 2020

Rwyf wedi cadarnhau heddiw y bydd pob disgybl yn gallu dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Rhannu'r dudalen hon: [Twitter](#) [Facebook](#) [Email](#)

Roedd Grŵp Cyngori Technegol Cymru, sy'n rhoi cyngor gwyddonol a thechnegol i'r Llywodraeth yn ystod argyfyngau, yn argymhell bod ysgolion "yn bwriadu agor ym mis Medi gyda 100% o ddisgyblion yn cyflwyno'n gorfforol ar safleoedd ysgolion, yn amodol ar ddirywiad cyson a graddol ym mhresenoldeb covid-19 yn y gymuned."

Mae'r papur sy'n cynnwys y cyngor hwn wedi'i gyhoeddi heddiw.

Bydd tymor yr Hydref yn dechrau ar 1^{af} Medi a dylai ysgolion sy'n gallu darparu ar gyfer pob disgybl o ddechrau'r tymor wneud hynny.

Bydd cyfnod o hyblygrwydd o ran cydnabod y bydd ysgolion o bosibl am ganolbwyntio ar grwpiau blwyddyn blaenoriaeth, megis y rhai sy'n newydd i ysgolion uwchradd, y rhai sy'n sefyll arholiadau yr haf nesaf neu'r rhai mewn dosbarthiadau derbyn. Bydd hyn hefyd yn caniatáu amser, hyd at bythefnos, ar gyfer unrhyw gynllunio ac ad-drefnu.

Byddaf yn cyhoeddi'r canllawiau gweithredol a dysgu diwygiedig ar gyfer mis Medi yr wythnos nesaf. Mae swyddogion addysg y Llywodraeth yn cael eu cefnogi yn y gwaith hwn gan awdurdodau lleol, penaethiaid, swyddogion iechyd y cyhoedd, undebau athrawon ac ymarferwyr addysg.

Rwyf hefyd wedi amlinellu cynlluniau i sicrhau bod £ 29m ar gael i 'recriwtio, adfer a chodi safonau ' yn ysgolion Cymru mewn ymateb i'r effaith y mae'r pandemig yn dal i'w gael.

Mae fy swyddogion hefyd yn gweithio gyda cholegau Addysg Bellach i gefnogi dychweliad ym mis Medi. Bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Cyhoeddwyd gyntaf

9 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

9 Gorffennaf 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

[Rhannu'r dudalen hon](#)

[Nôl i dop y dudalen](#)

[Cysylltu â ni](#) [Hygyrchedd](#) [Datganiad hawlfraint](#) [Cwcis](#) [Preifatrwydd](#) [Telerau ac amodau](#)

